Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 4 Mehefin 2015

Rhif Union: 01824 712568

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 10 MEHEFIN 2015** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**3 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2015 (copi ynghlwm).

**7 ADRODDIAD DIWEDDARU YNGLYN Â CHOD GWISG GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT** (Tudalennau 15 - 16)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn cyflwyno sylwadau i'r Aelodau a gafwyd yn dilyn eu penderfyniad mewn cyfarfod blaenorol mewn perthynas â gwisgo siorts.

**8 POLISI EITHRIO ARDDANGOS PLÂT CERBYD HURIO PREIFAT ARFAETHEDIG** (Tudalennau 17 - 26)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn argymell cymeradwyo'r Polisi Eithrio Arddangos Plât Cerbyd Hurio Preifat arfaethedig ar gyfer ymgynghori ffurfiol.

**9 ADOLYGU POLISI CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT** (Tudalennau 27 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn diweddaru aelodau ar yr adolygiad o'r Polisi Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat presennol a’r camau gweithredu arfaethedig.

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2015/16** (Tudalennau 31 - 46)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn nodi blaenoriaethau’r Adran Drwyddedu ac yn cyflwyno rhaglen gwaith i’r dyfodol y pwyllgor i’w gymeradwyo.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod trafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**11 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 15/0269/TXJDR** (Tudalennau 47 - 62)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu’r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau adolygu trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat o ran Gyrrwr Rhif 15/0269/TXJDR.

**12 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 14/0459/TXJDR** (Tudalennau 63 - 104)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau adolygu trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat o ran Gyrrwr Rhif 14/0459/TXJDR.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Joan Butterfield | Pat Jones |
| Bill Cowie | Barry Mellor |
| Richard Davies | Win Mullen-James |
| Stuart Davies | Peter Owen |
| Hugh Irving | Arwel Roberts |
| | Cefyn Williams |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned